



Ein cyf/Our ref MA/P/LG/0989/17

Diane McCrea MBE
Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

28 Mawrth 2017

Annwyl Diane

CYFOETH NATURIOL CYMRU - LLYTHYR CYLCH GWAITH 2017-18

Ysgrifennaf atoch i bennu cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystod 2017-18.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi a'ch staff am eich gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd 2017-18 yn gyfnod pwysig i Gyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo arwain y ffordd ar reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ledled Cymru, drwy roi diben cyffredinol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar waith ynghyd â datblygu a chyflenwi'r adnoddau a'r dyletswyddau a bennir ynddi. Dylid cyflawni'r camau gweithredu sy'n cael eu pennu yn y llythyr hwn yn y cyd-destun hwnnw.

Hoffwn weld CNC yn cymryd y camau penodol a ganlyn yn 2017-18:

1. Yn y cyd-destun polisi clir a osodwyd gan "Symud Cymru Ymlaen", amcanion Llesiant cysylltiedig Llywodraeth Cymru a chyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, dylai CNC gyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-18 / 2021-22 tua diwedd yr haf neu ddechrau'r hydref 2017, gan roi manylion yr amcanion llesiant cysylltiedig. Dylai hwn nodi sut y bydd CNC yn cyflwyno'r polisi newydd a'r fframwaith deddfwriaethol, gan ddangos sut y mae'r blaenoriaethau a'r polisiau a gynhwysir yn y Polisi Adnoddau Naturiol yn cael eu hintegreiddio â'r dulliau cyflawni o fewn CNC. Dylai'r Cynllun ddarparu gweledigaeth gref, sy'n eu grymuso, i staff ac i randdeiliaid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Dechrau gweithio'n lleol tuag at lunio datganiadau ardal, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â rhanddeiliaid ar raddfeydd lleol a chenedlaethol, i nodi ac i gyflenwi cyfleoedd a manteision lleol yn unol â'r blaenoriaethau a bennir gan y Polisi Adnoddau Naturiol;
3. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r anghenion o ran tystiolaeth a nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 a chytuno ar y dulliau gorau ar gyfer eu darparu. Hefyd, datblygu cynigion ar gyfer dangosyddion deilliannau i fesur ac i fonitro i ba raddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni ar draws Cymru ar lefel leol a chenedlaethol, gan adeiladu ar y sail a ddarparwyd gan ganlyniadau cadarnhaol y gwaith o ystyried opsiynau ar gyfer fframwaith monitro adnoddau naturiol yn y dyfodol;
4. Cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gwblhau'r gwaith o adolygu rôl a diben Ystad Coetir Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun egwyddorion ac amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
5. Fel Ymatebwr Categori 1, parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod adroddiadau priodol ar sefyllfaoedd yn cael eu darparu i Weinidogion a'u bod yn cael eu briffio ynghylch paratodau ar gyfer argyfyngau ac ynghylch trefniadau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol categori uchel, fel y'u pennir yng Nghanllawiau Categoriiddio Digwyddiadau CNC, ac ynghylch trefniadau ar gyfer gwaith adfer ar ôl digwyddiad o'r fath.
6. Gwella gallu cymunedau i ymdopi drwy'r cynlluniau rheoli risg llifogydd â blaenoriaeth a rhaglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru. Parhau i grynhoi tystiolaeth ynghylch risg llifogydd o bob ffynhonnell drwy fapio o'r newydd asesiadau o'r risg o lifogydd a darparu'r Gronfa Ddata Asedau Genedlaethol ar gyfer Ymdrin â Llifogydd a gwasanaeth cynhwysfawr darogan a rhybuddio ynghylch llifogydd;
7. Gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau camau i fynd i'r afael â throeddau gwastraff fel y'i nodwyd yn y gweithgor Troseddau Gwastraff a'r Cynllun Gweithredu Tannau ar Safleoedd Gwastraff;
8. Creu cynlluniau menter o fewn eich Fframwaith Llywodraethu gyda cherrig milltir ar gyfer creu incwm sy'n rhoi enghreifftiau da o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth sy'n gysylltiedig ag ymgyrch farchnata Llywodraeth Cymru ar gyfer Blwyddyn Chwedlau 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018;
9. Parhau i nodi cyfleoedd i gefnogi datblygu cymunedau a mentrau cymunedol drwy wirfoddoli. Parhau i gefnogi rhaglen Esgyn ac i gefnogi prosiectau ynni cymunedol a choedwigoedd cymunedol ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru pan fo hynny'n addas:
10. Chwarae rôl allweddol yn y dasg o roi'r Cynllun Morol ar waith a hefyd yn y gwaith o gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau cyffredinol y Cynllun fel rhan o'r gwaith a wneir o dan y Rhaglen Newid Morol;
11. Nodi a manteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth fwy agos gyda thimau amgylcheddol Awdurdodau Lleol, yr Arolygiaeth Amaeth a rheoleiddwyr eraill i gyflawni eich dyletswyddau rheoleiddiol chi ac iddynt hwythau gyflawni eu rhai nhw pan fyddant yn gorgyffwrdd, er enghraifft, i fynd i'r afael â niwsans statudol neu ansawdd aer yn lleol, llygredd amaethyddol, neu pan fo arbenigedd sydd ar gael i un rheoleiddiwr o bosibl yn gallu darparu cymorth i un arall.

12. Mae'r gweithgareddau a ganlyn yn ychwanegol i'r rhai a ariennir drwy Gymorth Grant. Bydd cyllid penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer y gweithgareddau canlynol yn 2017-18:

- Parhau i gefnogi rhaglen Taclo Tipio Cymru drwy weithio gydag Awdurdodau Lleol ac eraill i alluogi Strategaeth Dipio Llywodraeth Cymru i gael ei chyflawni. Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth, cadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid a pharhau i fynd i'r afael â thipio gwastraff yn anghyfreithlon ar raddfa fawr, fel y'i diffinnir yn y Protocol Tipio. Byddai'r camau gweithredu hyn yn cefnogi nod strategol Llywodraeth Cymru, sef "Cymru rhydd rhag niwed cymdeithasol economaidd ac amgylcheddol annerbyniol wedi'i achosi gan dipio anghyfreithlon". Darparu cefnogaeth a chynghor i Awdurdodau Lleol pan fônt yn ymgymryd â'u dyletswydd i fynd i'r afael â thir halogedig.
- Parhau i gefnogi darparu Cynllun Glastir ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn unol â'r cytundeb Adran 83 a'r contractau Datblygu Gwledig y mae CNC yn eu dal â Llywodraeth Cymru;
- Fel rhan o Raglen Weithredu Awdurdod Refeniw Cymru, cynnal swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yng nghyd-destun Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a darpariaethau'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi;
- Cyflogi, a darparu cefnogaeth i'r ddau aelod o Dîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru;

Cofion



Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Atodiad 1

CYFOETH NATURIOL CYMRU

Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i weithgareddau yn ymwneud ag adnoddau naturiol yng Nghymru: 2017-2018

Cymorth Grant

£000oedd

Cyfanswm Cymorth Grant	
Heb ymwneud ag Amddiffyn rhag Llifogydd	
Cyfalaf	3.6m
Refeniw ¹	60.2m
Amddiffyn rhag Llifogydd	
Cyfalaf	16.3m
Refeniw	18.2m

¹ Y Gronfa Buddsoddi i Arbed